**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-15- 00(p9)**

**Dyddiad**: 18 Hydref 2000

**Lleoliad**: Ystafell Gynadledda X, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

**Teitl**: Mentrau Cymunedol EQUAL

## Diben

1. Gyda'r papur hwn, amgaeir fersiwn ddrafft dogfen y Rhaglen Mentrau Cymunedol EQUAL ar gyfer Prydain Fawr sy'n cael ei rhoi gerbron y Pwyllgor er gwybodaeth (Atodiad 1). Cyflwynwyd fersiwn ddrafft y Rhaglen Mentrau Cymunedol i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 15 Medi 2000. Nid oes rhaid i'r Pwyllgor weithredu ar hyn o bryd.

## Cefndir

2. Mae EQUAL yn un o'r pedair Menter Gymunedol Ewropeaidd newydd ar gyfer y cyfnod 2000-2006. Mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth yn arwain y broses o ddatblygu EQUAL ledled Prydain Fawr mewn ymgynghoriad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweithrediaeth yr Alban. Nod cyffredinol EQUAL yw hyrwyddo dulliau newydd o drechu pob math ar anffafriaeth ac anghydraddoldeb mewn cysylltiad â'r farchnad waith drwy gydweithrediad traws-genedlaethol. Mae pwyslais cryf yn y fenter ar ddosbarthu a dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau. Bydd yn canolbwyntio'n arbennig ar faterion o anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig â rhyw; anabledd; tarddiad hiliol neu ethnig; crefydd neu gred; oedran a thueddiad rhywiol. Hefyd, bydd y fenter yn rhoi cymorth i integreiddiad cymdeithasol a galwedigaethol ceiswyr lloches.

## Ymgynghori

3. Ymgynghorwyd yn eang ar gwmpas y fenter EQUAL ym mis Gorffennaf a dechrau mis Awst. Bu'r Cynulliad Cenedlaethol yn rheoli'r ymgynghoriad yng Nghymru ar ran yr Adran Addysg a Chyflogaeth ac anfonwyd holiaduron at dros 100 mudiad ledled Cymru. Yn ychwanegol, sefydlwyd Grp Cyswllt EQUAL (ELG) yng Nghymru. Ei rôl yw cynghori ar ddatblygu a gweithredu'r fenter yng Nghymru a chyfarfu am y tro cyntaf ar 10 Awst. Amlinellir aelodau'r ELG yn Atodiad 2.

## Cwmpas Rhaglen Prydain Fawr

4. Rhoddwyd y cyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol a Gweithrediaeth yr Alban roi eu sylwadau

ar fersiynau drafft blaenorol o'r Rhaglen Mentrau Cymunedol.

5. Y pwyntiau allweddol i'r Pwyllgor eu nodi yw:

- Diben Cyffredinol y Fenter – profi dulliau newydd o gyflwyno blaenoriaethau polisi er mwyn trechu anffafriaeth yn y farchnad waith o fewn cyd-destun Strategaeth Cyflogaeth Ewrop. Bydd y Fenter yn helpu i roi gwybodaeth am ddatblygiadau polisi yn y dyfodol ac annog y broses o rannu arferion da rhwng Aelod-Wladwriaethau drwy gydweithrediad traws-genedlaethol. Y bwriad yw ymgorffori arloesedd llwyddiannus i raglenni prif ffrwd y Cronfeydd Strwythurol;

- Y Grwpiau Targed (Pennod 1.1) – bydd pwyslais arbennig ar drechu anffafriaeth sy'n seiliedig ar ryw, tarddiad hiliol neu ethnig, crefydd neu gred, anabledd, oedran neu dueddiad rhywiol. Hefyd, bydd y fenter yn cynnwys gweithredu i helpu integreiddiad cymdeithasol a galwedigaethol ceiswyr lloches;

- Gweithio Thematig (Pennod 2.3) -. Strwythurir y fenter o amgylch 9 maes thematig. Diffinnir wyth o'r rhain yng nghyd-destun y pedwar piler sy'n gysylltiedig â Strategaeth Cyflogaeth Ewrop ac maent yn cynnwys hwyluso'r modd o gael mynediad i'r farchnad waith; trechu hiliaeth a senoffobia; agor y broses o greu busnesau i bawb; cryfhau'r economi gymdeithasol; hyrwyddo dysgu gydol oes ac arferion gwaith cynhwysol; cefnogi addasrwydd cwmnïau; lleihau bylchau rhwng y rhywiau a chefnogi dadwahanu swyddi. Hefyd, eir i'r afael â Chyfle Cyfartal fel mater traws-bynciol. Mae'r nawfed thema yn ymwneud ag anghenion penodol ceiswyr lloches.

- Fframwaith ar gyfer gweithredu (Penodau 2.3 a 3.3) – mae'r Rhaglen Mentrau Cymunedol hon yn amlinellu cyd-destun polisi'r DU a chwmpas gwaith pellach/arloesol o dan EQUAL a hwnnw wedi'i rannu yn ôl y thema. Ar ôl ymgynghori â'r is-adrannau polisi perthnasol o fewn y Cynulliad, ynghyd â Grp Cyswllt EQUAL, cytunir fod y blaenoriaethau a gynhwysir yn yr adran hon yn rhoi digon o le i fod yn hyblyg wrth fynd i'r afael â'r materion sydd o fuddiant arbennig wrth drechu anffafriaeth yn y farchnad waith ac anfantais gymdeithasol yng Nghymru

- Partneriaethau Datblygu (Pennod 3.4.1) – Paratoir a gweithredir prosiectau EQUAL gan 'Bartneriaethau Datblygu'. Rhaid i bob un o'r partneriaethau fod ag o leiaf un partner traws-genedlaethol. Gellir ffurfio partneriaethau naill ai ar sail ddaearyddol neu fesul sector (sail thematig). Bydd y pwyslais ar ddatblygu dulliau arloesol o gyflwyno polisïau cyflogaeth sy'n mynd i'r afael â materion o anghydraddoldeb ac anffafriaeth yn hytrach na chyflwyniad prif ffrwd a fodlonir o dan raglenni'r Cronfeydd Strwythurol.

- Fframwaith ar gyfer Gweithredu (Pennod 4.1) – mae'r bennod hon yn disgrifio'r broses o weithredu EQUAL ym Mhrydain Fawr. Cynigir bod y Cynulliad Cenedlaethol a Gweithrediaeth yr Alban yn gweithredu fel awdurdodau rheoli ar y cyd er mwyn

gweithredu'r rhaglen. Bydd Pwyllgor Rheolaeth Cymru yn goruchwylio'r gweithredu yng Nghymru, gan adrodd wrth Bwyllgor Monitro Prydain Fawr. Hefyd, cytunwyd y byddai Cynllun Gweithredu ar wahân ar gyfer Cymru o dan gefnogaeth dyraniad adnoddau a fyddai wedi'i gorlannu. Mae trafodaeth ar y gweill gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth ynghylch yr union ddyraniad. Bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gweinyddu'r rhaglen yng Nghymru, ond trefnir rhai o'r gweithgareddau (ee rhwydweithio thematig) ar sail Prydain Fawr;

- Amserlen ar gyfer Gweithredu – Cyflwynwyd y fersiwn ddrafft o'r Rhaglen Mentrau Cymunedol i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 15 Medi. Mae'r trafodaethau â'r Comisiwn i fod i gael eu cwblhau erbyn Chwefror 2001 a disgwylir i'r Rhaglen ddechrau yn fuan ar ôl hynny.

**Camau Nesaf**

4. Yn dilyn ymgynghori â Grp Cyswllt EQUAL a'r partner-sefydliadau, cyflwynir y drafft cyntaf o Gynllun Gweithredu Cymru i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal fel eu bod yn ei ystyried ym mis Rhagfyr. Wedyn, cyflwynir Cynllun Gweithredu Cymru i Bwyllgor Monitro EQUAL Prydain Fawr fel ei fod yn ei gymeradwyo'n ffurfiol yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

**Is-adran Materion Ewropeaidd**

**Hydref 2000**